



Cyfres Stori Duw

Gwers 42

Tomos yn dod i gredu

Ioan 20:19–29

Nod:

Gweld pwysigrwydd ffydd ym mywyd y Cristion.

Adnodau:

Ioan 20:19–29

Gweithgaredd:

Dyfalu

Fe fydd angen nifer o eitemau gwahanol arnoch. Peidiwch â dangos yr eitemau i'r dosbarth. Disgrifiwch hwy un ar y tro gan ddechrau gyda disgrifiadau pen agored a mynd ychydig yn fwy manwl bob tro. ee, pe baech yn disgrifio siswrn.

- Cliw 1. Mae'r rhain i'w canfod yn y mwyafrif o dai.
- Cliw 2. Mae'n finiog.
- Cliw 3. Caiff ei ddefnyddio'n aml mewn gwaith crefft.
- Cliw 4. Defnyddiwch hwn i dorri pethau.
- Cliw 5. Peidiwch â rhedeg wrth ei gario.

Gallwch roi 5 pwynt i'r dosbarth os gallant ddyfalu ar ôl cliw 1 yn unig, 4 pwynt ar ôl cliw 2 yn unig, 3 phwynt ar ôl cliw 3 yn unig, 2 bwynt ar ôl cliw 4 yn unig, 1 pwynt ar ôl cliw 5.

Ewch ymlaen i ddisgrifio'r eitemau eraill yr un modd.

Darllen yr adnodau:

Darllenwch chi'r adnodau, a gofyn i'r dosbarth ddilyn yn eu Beiblau eu hunain.

Trafodaeth:

Fe welwyd wythnos diwethaf mai marwolaeth ac atgyfodiad Iesu yw canolbwynt y ffydd Gristnogol, a heb y ddwy weithred yma, ofer yw ein ffydd. Er hynny mae rhai pobl yn amau bod Iesu wedi byw/ marw/ atgyfodi. Yn ein hanes heddiw, mae un o ffrindiau Iesu – Tomos, yn amau a oedd Iesu wedi atgyfodi.

Gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r bobl ifanc i ysgogi trafodaeth;

- Pam dybiech chi nad oedd Tomos yn credu gair ei ffrindiau am atgyfodiad Iesu?
- Ydych chi'n gweld bai ar Tomos neu'n cydymdeimlo ag ef?
- Pa brawf ddywedodd Tomos y byddai ei angen arno er mwyn credu'r atgyfodiad? (ad 25)
- Wedi cael y prawf hwn beth oedd ei ymateb? (ad 28)
- Beth oedd ymateb Iesu i anghrediniaeth Tomos? (ad 29)

Gweithgaredd:

Y prawf cyntaf i Tomos, mai Iesu oedd yr un yma a ddaeth i roi prawf o'i atgyfodiad iddo, oedd y ffaith fod Iesu'n gwybod ei enw. Roedd Iesu'n ei adnabod, a thrwy hynny a'r

profion eraill, sylweddolodd Tomos ei fod ef yn adnabod Iesu hefyd.

Gofynnwch i'r dosbarth eistedd mewn cylch, a meddwl am dair ffaith amdanynt eu hunain. Z ffaith sydd yn wir, ac un ffaith sy'n gelwydd. Ceisiwch eu hannog i ddweud celwydd credadwy gan mai diben y gêm yw ceisio twyllo gweddill y dosbarth.

Wedi i un ddweud y ffeithiau amdano'i hun, mae gweddill y dosbarth i geisio dyfalu, pa ffaith sy'n gelwydd.

Wedi iddynt orffen ewch ymlaen at y person nesaf ayb.

Sgwrs:

Mae hanes yr atgyfodiad ym mhedwar llyfr cyntaf y Testament Newydd. Mae pob un o'r hanesion yma'n cynnwys adroddiad gan lygad dystion, pam gredwch chi fod Duw am i loan roi'r hanes hwn am Tomos yn amau, yn amharod i gredu'r atgyfodiad?

Pe baech chi'n ceisio perswadio rhywun fod rhywbeth yn wir, a fyddech chi'n cynnwys hanes gan rywun sy'n amau?

Er mwyn gweld pam yr oedd Duw am i'r hanes hwn fod yn y Beibl, rhaid i ni edrych ar ad 29. Holwch y dosbarth a allan nhw weld pam, wedi darllen yr adnod? (oherwydd bod Iesu wedi dweud Gwyn eu byd y rhai a gredodd heb weld)

Yn y categori hwn yr ydym ni heddiw. Ydi mae'n wir fod gannym ni ddigon o brawf, o'r tu mewn a thu allan i'r Beibl, fod Iesu

wedi byw, wedi cael ei groeshoelio ac wedi atgyfodi. Ond allwn ni ddim edrych ar Iesu'n gorfforol fel y gwnaeth Tomos, mae elfen o ffydd yn gorfod bod yn ein credu ni. Nid ffydd ddall nage, ond mae angen ffydd. Fe ddywed Iesu mai Gwyn ein byd ni, y rhai sy'n credu ynddo, yn ei garu, ac yn ei ddilyn trwy ffydd.

Gweithgaredd:

Fe welwn, ar ddechrau hanes heddiw fod Tomos yn cael ei adnabod drwy ddau enw, Tomos a Didymus. Os oes amser ar ddiwedd y wers, gofynnwch i'r bobl ifanc, pe baent hwy'n cael dewis enw arall ar gyfer eu hunain, beth fyddai'r enw hwnnw?

Amser Addoli:

Gofynnwch – Ydym ni weithiau'n ei chael hi'n anodd credu yn Iesu, ei fywyd, ei farwolaeth, ei atgyfodiad?

Pa brawf sydd gennym y tu allan i hanes ayb am fodolaeth Iesu? Gallwch sôn wrth y bobl ifanc fod Cristion yn clywed Iesu'n siarad drwy'r Beibl, yn teimlo'i bresenoldeb wrth siarad ag ef mewn gweddi, a bod Iesu wedi addo y byddai'n byw yng nghalon pawb sy'n ei garu.

Gweddiwch y bydd Iesu yn dangos ei hun i'r bobl ifanc wrth iddynt roi eu ffydd ynddo. A diolchwch fod Iesu trwy'r ysbryd Glân yn bresenoldeb real ym mywyd pawb o'i ddilynwyr. Amen